CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 9fed Gorffennaf 2025 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng. John P Jones, Berwyn Harding, Wyn Lewis, Rhys Davies, John P Roberts, Arfon Hughes (hanner olaf y cyfarfod) , a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng John P Jones.** Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Idris Jones, Catrin Jones Johnson, Lynne Mccrickett a Sion Alun Roberts.

   Mynegwyd ein dymuniadau gorau i'r Cyng Idris Jones a oedd wedi bod yn yr ysbyty yn ystod y dydd.

   Llongyfarchwyd y Clerc ar ddod yn Taid ar ol genedigaeth Gethin Rhys i Mererid a Rhys ar Ynys Mon.

   Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda. Nid oedd unrhyw ddatganiadau.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod Blynyddol a** gynhaliwyd ar y 14eg o Fai ar gynnig Cyng Wyn Lewis a'i eilio gan Cyng Rhys Davies.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd ymatebion i faterion Cefnffyrdd ers y tro diwethaf. Nid oedd atebion priffyrdd Cyngor Gwynedd i law
b) **Dyfodol Eglwys Llanymawddwy –** adroddwyd am ymateb ymgynghoriad Cymunedol yng nghyswllt Eglwys Llanymawddwy. Nodwyd balchder fod cymaint wedi ymateb.
c) **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – nid oedd datblygiadau.

d) **Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas** – darllenwyd ymateb Gethin Vaughan Jones o Gyngor Gwynedd ynglyn a gwneud Is-Brydles ar gyfer y tir dan sylw dros 7 mlynedd. Byddai'r gost i'r Cyngor oddeutu £1800 yn y lle cyntaf, Penderfynwyd gadael hyn tan y cyfarfod nesaf cyn gwneud penderfyniad ar sut i symud ymlaen.

e) **Torri gwair mynwentydd** – yn dilyn gwybodaeth yn y dyddiau diwethaf, adroddwyd na fyddai Andrew Jones Johnson yn medru torri gwair y tair mynwent am y trydydd tro eleni – sef diwedd Awst/dechrau Medi. (adroddwyd am waith hynod daclus ganddo am y ddau doriad yn y 3 mynwent sydd yng nghofal y Cyngor, a diolchwyd yn fawr iawn iddo)

Roedd angen felly cael contractor ar frys, i wneud y 3 mynwent yn ystod mis Medi eleni. Gan nad oedd amser yn caniatau i hysbysebu, (hefyd nid oedd rhifyn o'r Blewyn Glas yn cael ei gyhoeddi ym mis Awst) gofynnwyd i'r Clerc ymchwilio a chysylltu gyda rhai unigolion hwyrach fyddai a diddordeb. Cytunwyd yn unfrydol y gellid cynnig yr un

raddfa o arian am y gwaith ag y cytunwyd i Andrew. Cytunwyd y byddai rhaid hysbysebu yn llawn ar gyfer y gwaith yn 2026.

f) **Safle y gofgolofn yn Minllyn** – nodwyd y gohebiaeth i law gan Stuart England a darllenwyd yn llawn i'r Cynghorwyr. Diolchwyd iddo am gynnig arwain ar y gwaith sydd ei angen yno, a chytunwyd i fynd ymlaen os oedd y gost o dan £200.

g) **Amddiffyn gwasanaethau Bronglais ac Ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Hywel Dda –** roedd Cyng John P Jones a Berwyn Harding wedi mynychu y cyfarfod yn Aberystwyth ar yr 20fed o Fehefin. Byddai'r Clerc yn ymateb i'r ymgynghoriad . ac yn dosbarthu yr e-bost diweddaraf gan Lisa Francis i bob Cynghorydd.

**h)** Roedd cadarnhad i law am **gyfuno wardiau y Cyngor**. Adeg etholaidau i'r dyfodol, ni fyddai'r gymuned wedi ei rhannu yn wardiau, felly byddai ymgesiwyr yn ceisio am sedd ar y Cyngor Cymuned llawn, ac nid ar gyfer ward benodol.

**5. Materion Cynllunio**

Adroddwyd am geisiadau wedi ei ddosbarthu ers y tro diwethaf, sef;

**NP5/74/323C - Hysbysiad o flaen llaw ar gyfer uwchraddio offer ar ddatblygiadau telethrebu presennol - Ty'n y Pwll, Dinas Mawddwy**

*(roedd hwn wedi ei ddosbarthu yn gwahodd sylwadau, a'r Cyngor yn gefnogol)*

**NP5/74/LUL182A – Tystysgrif defnydd cyfreithiol (presennol) i ddefnyddio'r eiddo fel llety gwyliau tymor byr (Dosbarth Defnydd C6) – yn Bryn Cleifion Lodge, Mallwyd**

*(hwn wedi ei ddosbarthu yn gwahodd sylwadau, ac ni chafwyd ffeithiau i law i gynorthwyo)*

**Ymgynghoriad Trwyddedu – Red Bull Hardline**

*(hwn wedi ei ddosbarthu yn gwahodd sylwadau, a'r Cyngor yn gefnogol)*

Roedd gohebiaeth i law gan WHP Telecoms ynglyn a uwchraddio mast yn Bryncerist. Nodwyd fod angen dweud fod angen ffens oddiangylch y safle, a bod y bocsys mewn gwyrdd yn hytrach nag wyn er mwyn gweddu i'r tirlun.

**6.Materion Cyllid.**

a) **Cyfrifon 2024-25** - roedd y cyfan wedi eu cyflwyno I'r archwilydd allanol, a'r hysbyseb gyhoeddus wedi ei rhoi ar y wefan ac hysbysfwrdd y neuadd.

b) Nodwyd balansau y cyfrifon, (9.07.25), sef Cyfri Cyfredol £9828.28, Cyfri Claddedigaeth £401.29 Cyfri Cadw £793.92. Roedd ad-daliad TAW i law am £308. Hefyd roedd £130.05 i law i'r cyfrif claddu gan I B Williams a'i fab am ail-osod cofeb i'r diweddar Doris Rowlands ym mynwent Dinas Mawddwy.

c) Anfonebau i'w talu - ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Cyng Wyn Lewis, cytunwyd i'r canlynol;

**A Johnson** – torri gwair (toriad cyntaf) mynwentydd Mallwyd, Llanymawddwy a Dinas - £900.00

**Cydnabyddiaeth chwarter cyntaf y Clerc** £485.04 a HMRC £121.20.

**Anfoneb Archwilio Cymru** am 2023/24 - £415

d) Ceisiadau am arian – ar gynnig Cyng Berwyn Harding a'i eilio gan Cyng Wyn Lewis, cytunwyd i'r canlynol;

- **Ambiwlans Awyr Cymru** – nodwyd nad oedd yr Adolygiad Barnwrol wedi bod yn llwyddiannus. Cytunwyd i gyfraniad o £100.
- **Papur Bro y Blewyn Glas** – cytunwyd ar gyfraniad o £50
- **Cerebral Palsy Cymru** – penderfynwyd gadael hwn tan y cyfarfod nesaf.

**7.Gohebiaeth.**

a) Nodwyd **Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru** a oedd wedi ei cylchredeg. Roedd angen cysyltlu gyda'r Clerc fel arfer os oedd rhywun yn dymuno cymryd rhan. Hefyd nodwyd cyfarfod Un Llais Cymru Meirionnydd 16.07.25 - 7pm Penrhyndeudraeth.

b) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - ystyriwud y diweddaraf yn dilyn cyfarfod arbennig ar yr 19eg o Fehefin, a'r syniadau/amcangyfrifon i law. Diolchodd y Clerc i bawb oedd wedi cynorthwyo efo hyn, mater a oedd yn waith ychwanegol i'r Clerc – reodd Cyng John P Jones, Arfon Hughes a Wyn Lewis wedi darparu amcangyfrifon. Yn dilyn trafodaeth faith, penderfynwyd gwneud y cais ar sail 4 planter blodau £900, 2 fwrdd picnic £898, cost blodau £157, 5 mainc £1850, dylunio panel gwybodaeth £180, ffram panel £664.90, codi bwrdd gwybodaeth £200. (cyfanswm £4849.90.)

Roedd caniatad i law gan Gyngor Gwynedd i osod mainc ychwanegol yn y maes chwarae yn Dinas, caniatad gan J P Jones a Hedd Pugh fel porwyr comin Dolybont i osod bwrdd picnic (ar y dealltwriaeth na fyddent yn cymryd cyfrifoldeb pe bai anifail yn ei difrodi)

Hefyd roedd caniatad gan Hedd Pugh o osod y panel gwybodaeth yn y maes parcio yn Cywarch, sydd yn ei berchnogaeth. Hefyd roedd yn dymuno gweld y cynnwys cyn ei osod.

Roedd y Clerc wedi cwbwlhau y ffurflen gais mewn drafft yng nghyswllt meiciau, byrddau picnic a planters blodau , gyda ychwanegiadau gan Arfon gyda'r bwrdd gwybodaeth am enwau craig cywarch. Roedd y cyfan wedi ei ddosbarthu ymlaenllaw i'r holl Gynghorwyr. Ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Cyng Wyn Lewis a chytundeb pawb, cytunwyd fod y cynnwys yn gyflawn a chwyir i'w danfon ymlaen fel cais grant. (gan ddileu unrhyw gyfeiriad ar bontydd)

c) **Mynwent Eglwys Llanymawddwy** – nodwyd gohebiaeth i law gan Nona Wyn Davies am y bwriad ganddynt fel teulu i gysylltu gyda I B Williams a'i fab i wneud gwaith ar feddau y teulu. Roedd hyn er gwybodaeth, a nodwyd nad oedd unrhyw broblem.

d) **Mynwent Eglwys Mallwyd** – nodwyd gohebiaeth i law gan Karen Talbot yn gofyn caniatad i chwalu llwch ei diweddar fam Bridie Owen, a'i thad Derek Owen ( a fu farw yn ddiweddar) ym mynwent Mallwyd o dan un o'r coed yno – yn ol eu dymuniad. Trafodwyd hyn a gwelwyd fod angen ymchwilio a chael mwy o wybodaeth beth oedd yn bosibl. Nid oedd unrhyw lwch wedi ei chwalu yno yn y gorffennol yn ol ein dealltwriaeth.

e) Nodwyd ohebiaeth am **broblemau beiciau modur** yn Dinas Mawddwy, a diolchwyd i'r Cyng John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a oedd wedi ymdrin a hyn.

f) Roedd e-bost gan Nia Edwards Clarke o Gyngor Gwynedd ynglyn a newid hinsawdd, holiadur ayyb a oedd wedi ei gylchredeg.

**g)** Roedd '**Tim Tacluso Ardal Ni'** Cyngor Gwynedd yn gwneud gwaith yn yr ardal yn ystod canol Gorffennaf.

**8. Unrhyw Fater arall.**

**a**) Roedd manhole draen ar Rhiw Landrin – sef o dan y Llew Coch (ar y comin ger y fainc) yn gorlifo adeg glaw trwm, ac roedd y mater angen sylw.

b) Cadarnhawyd gan Cyng John P Roberts fod gwaith ar Pont Pumryd mewn llaw.

c) Roedd gwaith ym maes parcio Llanymawddwy yn parhau heb ei wneud, a chadarnhwyd fod hyn mewn llaw.

d) Roedd draen wedi blocio rhwng mynediad Coedcae a Rhiw Cawr yn Llanymawddwy.

e) Roedd cebl ffon ger y Felin yn Llanymawddwy ar lawr, ac roedd angen cysylltu gyda Openreach.

f) Roedd manhole draen oddiar Penantigi ar yr A470 yn rhydd ac angen sylw.

g) Diolchwyd yn fawr iawn am y gwaith da yn torri gwair ochrau ffyrdd yr ardal, ac roedd geiriau caredig wedi eu mynegi.

h) Roedd Himalayan Balsam yn broblem gerllaw Groeslwyd ar yr A458, ac angen sylw.

i) Roedd cwynion yn parhau am sefyllfa y carafannau ger Min y Goedwig. Nodwyd amharu ar drigolion gan y cwn sydd yno, a'r drewdod. Hefyd roedd gwrych yn gor-dyfu.

j) Roedd gwrych yn gor-dyfu ger Pont y Brook, a oedd yn golygu fod ceir yn gwyro i un ochr y ffordd. Hefyd roedd gwrych yn gor-dyfu ger Penbont – mater a oedd wedi ei godi o'r blaen gan y Cyngor Cymuned

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 27ain Awst 2025 , 8.00y.h.**